# MODIWL 1B RHAN A: FFYNONELLAU CIG EIDION - Y FUCHES SUGNO

# NODIADAU ATHRAWON

## CYFLWYNIAD

Pwrpas yr Uned yma yw

- Adnabod strwythur y fuches sugno a phatrwm cynhyrchu.
- Adnabod y ffactorau sy'n dylanwadu ar gynnyrch y fuches sugno.
- Adnabod natur cynnyrch y fuches sugno.

Ar ddiwedd yr Uned bydd y myfyriwr yn adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar gynhyrchiant cig eidion o'r fuches sugno ac yn adnabod strwythur sustem o'r fath.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Buches Sugno

Bridiau addas

Lleoliad addas

Sustemau

Teirw addas

## ADNODDAU

- Ffeithlen
- Adnoddau ar y we
- Y llyfrynnau a ganlyn gan Hybu Cig Cymru
    - Bridio Buches Eidion Broffidiol
    - Llawlyfr Prynu Tarw
    - Gwneud y Gorau o'ch Gwartheg Sugno

## GWEITHGAREDDAU ADDYSGU I ROI TYSTIOLAETH BOD DYSGU WEDI DIGWYDD

1. Paratoi cynllun sy'n amlinellu strwythur gynhyrchu y fuches sugno a'r prif benderfyniadau fydd angen i ffermwr ei wneud wrth:-

    a. Sefydlu'r fuches – dewis brid, lleoliad, isadeiledd, math o anifail i'w gynhyrchu

    b. Rheoli'r fuches – hwsmonaeth a dewisiadau marchnata.